# Cynllun Corfforaethol a Chynllun Adfer

Fe wnaeth y Cyngor Llawn (4ydd Mawrth 2021) fabwysiadu ei Gynllun Corfforaethol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2023, gan ddefnyddio 3 blaenoriaeth bresennol y Cynllun Corfforaethol a'r datganiadau diwygiedig.

Wrth fabwysiadu'r blaenoriaethau hyn, cytunwyd bod cynllun adfer y Cyngor wedi'i integreiddio i'n Cynllun Corfforaethol a dylai'r blaenoriaethau barhau fel amcanion llesiant y Cyngor.

## Datganiadau diwygiedig yn ymgorffori blaenoriaethau adfer yn sgil COVID-19

### ⇨ Blaenoriaeth: Sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn wyrdd ac yn lân

**Ein nod yw gweld …**
**Cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y mae trigolion yn falch ohono**

***Byddwn yn …***
- Cadw'r fwrdeistref sirol yn lân ac yn daclus ac yn rhydd o sbwriel
- Gweithio mewn ffordd gynaliadwy i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Cynnal mannau agored ar dir sy'n eiddo i'r cyngor i safon dderbyniol a gweithio gyda pherchnogion tir preifat a phartneriaid lleol i sicrhau hyn
- Nodi cyfleoedd i gynyddu nifer y siwrneiau hanfodol a wneir trwy gerdded a beicio
- Datblygu a gweithredu ein cynllun gweithredu Brys ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd

***Byddwn yn cefnogi, ac yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid, cymunedau lleol, gwirfoddolwyr a thrigolion i …***
- wella golwg eu hardaloedd lleol
- ail-ddefnyddio nwyddau a deunyddiau, lleihau eu gwastraff, a chynyddu’r hyn y maen nhw’n ei ailgylchu

### ⇨ Blaenoriaeth: Cefnogi lles plant a phobl ifanc a chodi cyrhaeddiad addysgol

**Ein nod yw gweld …**
**Pob person ifanc yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd trwy dderbyn addysg dda.**

**Byddwn yn …**
- Gweithio gydag ysgolion, cyrff llywodraethu a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu addysgu o ansawdd uchel a chanlyniadau gwell i ddysgwyr
- Darparu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion a allai fod ar ei hôl hi yn eu haddysg
- Cydlynu a darparu cefnogaeth sy'n hyrwyddo lles staff a disgyblion ar draws pob ysgol
- Gwella a datblygu'r dull cynhwysiant digidol ymhellach ar gyfer dysgwyr
- Annog pob person ifanc i gymryd rhan mewn addysg ôl-16 neu hyfforddiant
- Cynllunio ar gyfer adeiladau ysgol newydd a gwell sy'n addas at y diben yn yr 21ain ganrif
- Teilwra ein gwasanaethau addysg blynyddoedd cynnar gwasanaethau cymorth i deuluoedd i ddiwallu anghenion dysgwyr a'u rhieni / gofalwyr
- Cydlynu gweithgarwch adnabod ac atal yn gynnar i sicrhau parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chanlyniadau gwell

**Byddwn yn cefnogi, ac yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid, cymunedau lleol, gwirfoddolwyr a rhieni i …**

- Gael dyheadau uchel ar gyfer eu plant a chyfrannu at eu haddysg
- Sicrhau bod plant yn mynychu'r ysgol yn barod i ddysgu a gwneud cyfraniad cadarnhaol
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a staff yn cael cyfleoedd i hyrwyddo lles

## ⇨ Blaenoriaeth: Cefnogaeth i'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen

**Ein nod yw gweld …**
**Cymunedau iachach lle mae pobl fregus yn cael eu cynorthwyo i fyw bywydau annibynnol, lle maent yn cael eu cynnwys yn gymdeithasol ac heb anghydraddoldeb.**

**Byddwn yn …**

- Galluogi ein pobl fwyaf bregus i gael annibyniaeth a'i gynnal, gyda llais a rheolaeth yn eu bywydau
- Mynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi plant
- Cefnogi pobl i allu delio â'r heriau economaidd ac ariannol sy'n eu hwynebu
- Lleihau nifer ein plant sy'n derbyn gofal, yn ddiogel
- Rhoi cefnogaeth i bobl sydd mewn perygl o golli eu cartref
- Cefnogi pobl sy'n colli, neu mewn perygl o golli eu swydd, o ganlyniad i COVID-19 trwy gynyddu eu sgiliau, eu cymwysterau a'u cyflogadwyedd, sicrhau prentisiaeth, swydd neu i gychwyn busnes
- Cefnogi sefydlu a llwyddiant busnesau bach
- Hyrwyddo ac annog adfywio canol trefi trwy gefnogi gweithgaredd newydd ac amrywiol

**Byddwn yn cefnogi, ac yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid, cymunedau lleol, gwirfoddolwyr a thrigolion i …**

- Gofalu am ein gilydd a chadw llygad am y rhai sydd fwyaf anghenus
- Helpu pobl i ddod yn annibynnol trwy wella eu lles ariannol, emosiynol a chymdeithasol

## <u>Sut y byddwn yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau hyn</u>

**Ein nod yw bod yn …**
**Gyngor effeithlon, arloesol sy'n gwerthfawrogi ei staff, yn trin y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau â pharch, yn grymuso cymunedau lleol ac yn diogelu gwasanaethau lleol**

**Byddwn yn …**

- Gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wneud penderfyniadau
- Bod yn gyngor agored a thryloyw gyda phrosesau ariannol a rheoli cadarn
- Cyfleu ein bwriadau yn onest ac yn eglur
- Mynd ati i geisio barn cymunedau a thrigolion lleol
- Datblygu ffyrdd o weithio gyda phartneriaid, cymunedau lleol a thrigolion i sicrhau buddion hirdymor, a chreu cymunedau cryfach
- Cydnabod cyfraniad ein staff a'u trin â pharch
- Meithrin perthnasoedd adeiladol â'r Undebau Llafur a chynllunio da o ran y gweithlu
- Ymateb i'n hargyfwng newid yn yr hinsawdd yr ydym wedi ei datgan trwy weithredu i wella ein heffeithlonrwydd yn nhermau ynni, a lleihau allyriadau carbon
- Digideiddio ein gwasanaethau, lle bo hynny'n bosibl i'w gwneud yn fwy hygyrch
- Ystyried prynu nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau lleol
- Cefnogi a hyrwyddo'r economi leol